CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

Dyddiad y Cyfarfod: **27/11/2023**

Teitl: **Cymwysterau 14-16**

Pwrpas yr adroddiad: **Er gwybodaeth**

Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:
Diweddariad ar newidiadau gan cymwysterau Cymru.

Cefndir:
Mae Cymwysterau Cymru yn edrych ar gymwysterau i ddisgyblion rhwng 14 ac 16 mlwydd oed. Mae Cymwys ar gyfer y dyfodol yn ceisio sicrhau bod dysgwyr Cymru yn dilyn cymwysterau sy'n eu hysbrydoli ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Er mwyn gwneud hyn, mae Cymwysterau Cymru'n ail-ddychmygu cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd. Bwriad Cymwys ar gyfer y dyfodol yw:

- ennyn hyder y cyhoedd yng Nghymru, y DU, ac yn fyd-eang
- sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog i ysgolion a dysgwyr
- gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol
- gallu cael eu cyflwyno mewn ffordd reoledig a chynaliadwy

Mae'r sefydliad wedi gweithredu model o ddatblygu ar y cyd ac yn gweithredu dau ymgynghoriad.

Y Sefyllfa Gyfredol:
Mae dau ymgynghoriad wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y papur yma'n ystyried penderfyniadau'r ymgynghoriad TGAU Gwneud-i-Gymru. Rhwng hydref a gaeaf 2022 cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth ar y cynigion ar gyfer y TGAU Gwneud-i-Gymru. Ymghorwyd ar y cynigion i'r 26 cymhwyster newydd, sydd wedi'u grwpio o amgylch y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Yn y cyflwyniad byddai'n amlinellu'r penderfyniadau a gyhoeddwyd ar y 28ain o Fehefin ar ddeilliannau'r ymgynghoriad.

Yn ogystal â'r uchod, mae ymgynghoriad ar y cynnig llawn o gymwysterau. Tra bod yr uchod yn ystyried y pynciau mwy traddodiadol, mae'r cynnig llawn yn ystyried pob math o gymhwyster. Bydd y cymwysterau yma'n sefyll ochr yn ochr â chymwysterau TGAU. Bydd hyn yn darparu cymwysterau sy'n cefnogi ehangder y Cwricwlwm i Gymru ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith. Cyhoeddir canfyddiadau'r ymgynghoriad yma yn Ionawr 2024.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Na. Newidiadau Cenedlaethol.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Ddim yn berthnasol
Cydweithio: Ddim yn berthnasol

Cynnwys: Ddim yn berthnasol
Atal: Ddim yn berthnasol
Integreiddio: Ddim yn berthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:
Rhannu er gwybodaeth.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Rhannu er gwybodaeth.

Enw Cyswllt: Gareth Lanagan

Swyddogaeth: Swyddog Cefnogi Ysgolion

Dyddiad yr adroddiad: 06/11/2023

Acronymau:
TGAU - Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd